# Adolygiad o ganllawiau ynghylch cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr

Crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad

24 Mehefin 2020

HM Government

# Cynnwys

**Crynodeb**

**Canfyddiadau'r adolygiad**
Tystiolaeth wyddonol
Effeithiau economaidd a chymdeithasol
Cymariaethau rhyngwladol
Dadansoddiad sector
Gweithredu

**Atodiad A: ‘Sut mae Covid-19 yn cael ei drosglwyddo a sut i leihau risgiau’**

**Notes**

# Crynodeb

1. Dros y pythefnos diwethaf, mae panel adolygu, dan arweiniad Ysgrifennydd Parhaol Rhif 10 ac sy'n cynnwys Prif Gynghorydd Gwyddonol y Llywodraeth, y Prif Swyddog Meddygol, a'r Prif Gynghorydd Economaidd i Drysorlys Ei Mawrhydi, wedi ystyried effeithiolrwydd canllawiau ynghylch cadw pellter cymdeithasol y Llywodraeth yng nghyd-destun mynychder cyfredol y feirws. Maent wedi ystyried y dystiolaeth wyddonol, effaith economaidd cadw pellter cymdeithasol, ymatebion ymddygiadol a chymaryddion rhyngwladol.

2. Mae costau economaidd difrifol ynghylch cynnal pellter o 2f. Â rheol 2f ar waith, nid yw'n ariannol hyfyw i lawer o fusnesau weithredu; mae cyrff diwydiant, er enghraifft, wedi amcangyfrif y gallai allfeydd yn y sector lletygarwch wneud dim ond 30% o refeniw cyn-Covid wrth gadw pellter o 2f, yn hytrach na 60-75% ar 1m. Mewn sectorau sydd ar gau ar hyn o bryd (gan gynnwys mewn llety, gwasanaethau bwyd a hamdden), mae dros 1.75m o swyddi wedi'u rhoi ar ffyrlo ledled y DU (nodyn 1). Mae llawer o'r rhain mewn perygl os nad yw ailagor yn hyfyw ar 2f.

3. Mae rhai gwledydd tebyg i'r DU wedi argymell pellteroedd o dan 2f pan yw nifer yr achosion wedi gostwng a chyda mesurau lliniaru eraill ar waith. Mae Ffrainc, yr Eidal a Singapôr yn argymell 1m, mae De Corea yn argymell 1-2f, ac mae'r Almaen, Awstralia a'r Iseldiroedd yn argymell 1.5m. Mae Denmarc a Seland Newydd wedi lleihau eu pellter argymelledig o 2f i 1m gyda mesurau lliniaru. Mae gwledydd eraill yn aros ar 2f.

4. Mae'r risg absoliwt o drosglwyddo rhwng pobl yn cael ei lleihau wrth i nifer yr achosion o haint Covid-19 yn y boblogaeth ostwng. Mae'r dystiolaeth yn dangos y gallai risg gymharol fod 2-10 gwaith yn uwch ar 1m na 2f heb fesurau lliniaru, a bydd y potensial ar gyfer meddiannaeth uwch ar bellter o 1m hefyd yn effeithio ar risg. Fodd bynnag, gall mesurau lliniaru leihau'r risg ar 1m, fel ei fod yn cyfateb yn fras i fod 2m oddi wrth ei gilydd, gan nodi nad yw'n bosibl cynnal asesiad manwl a meintiol o faint o risg sy'n cael ei leihau gan fesurau lliniaru.

5. Mae'r canllawiau cyfredol yn dweud "lle mae'n bosibl, dylech gynnal 2m rhwng pobl". Dylai'r canllawiau newid i nodi bod 2f neu 1m gyda mesurau lliniaru risg (lle nad yw 2m yn hyfyw) yn dderbyniol, ac y dylai busnesau nodi'r mesurau lliniaru y byddant yn eu cyflwyno yn eu hasesiad risg.

# Canfyddiadau'r adolygiad

## Tystiolaeth wyddonol

6. Mae cadw pellter corfforol yn un o nifer o fesurau a all helpu i leihau nifer yr achosion o Covid-19. Mae tystiolaeth y bydd y risg o drosglwyddo yn cynyddu 2-10 gwaith ar 1m o'i gymharu â 2f a bydd y potensial ar gyfer meddiannaeth uwch ar bellter o 1m hefyd yn cynyddu'r risg os nad oes mesurau lliniaru. Fodd bynnag, gall mesurau lliniaru leihau lefel y risg ar 1m fel ei fod yn cyfateb yn fras i fod 2f oddi wrth ei gilydd. Adlewyrchir hyn yng nghanllawiau Covid-ddiogel, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer sefyllfa pan nad yw'n bosibl cadw pellter o 2f mewn sectorau sydd ar agor ar hyn o bryd.

7. Ymhlith y ffactorau sy'n effeithio ar risg mae hyd yr amser dod i gysylltiad, cyfeiriad (wyneb yn wyneb yn erbyn ochr yn ochr), awyru ac, yn bwysicaf oll, lefel yr haint yn y boblogaeth. Mae'r risg uchaf yn ymddangos mewn gofod dan do, gorlawn, wedi'i awyru'n wael am gyfnod estynedig o amser.

8. Mae'r Gr?p Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) wedi cynghori ar 39 o gamau a all leihau'r risg o drosglwyddo (nodyn 2). Mae'r rhain yn cynnwys:

   - newid patrymau sifftiau fel bod staff yn gweithio mewn timau penodol;
   - gwella awyru;
   - newid cynlluniau ystafelloedd i gyfeirio pobl yn well, er enghraifft mewn bwytai;
   - cynyddu glanhau a golchi dwylo; ac
   - annog y defnydd o sgriniau amddiffynnol a gorchuddion wyneb.

# Effeithiau economaidd a chymdeithasol

9. Mae costau economaidd difrifol ynghylch cynnal pellter o 2f. Byddai lleihau o 2f i 1m yn caniatáu i fwy o bobl ddychwelyd i'r gwaith a chynyddu gallu busnesau. Gyda rheol 2f ar waith, nid yw'n ariannol hyfyw i lawer o fusnesau weithredu. Mae cyrff diwydiant, er enghraifft, wedi amcangyfrif y gallai allfeydd yn y sector lletygarwch wneud dim ond 30% o refeniw cyn-Covid wrth gadw pellter o 2f, yn hytrach na 60-75% ar 1m.

10. Mae dros 9.2m o swyddi wedi'u rhoi ar ffyrlo ledled y DU gan gynnwys dros 1.75m o swyddi mewn sectorau sydd ar gau ar hyn o bryd (gan gynnwys mewn llety, gwasanaethau bwyd a hamdden) (nodyn 3). Mae rhai o'r swyddi hyn mewn perygl os nad yw ailagor yn hyfyw ar 2f, â'r potensial ar gyfer diswyddiadau sylweddol. Mae diweithdra yn achosi effeithiau cymdeithasol ac economaidd negyddol difrifol gan gynnwys ar iechyd meddwl a'r risg o greithio economaidd yn y tymor hir.

11. Byddai mwy o fusnesau yn hyfyw pe byddai'r pellter yn cael ei ostwng i 1m. Hyd yn oed lle mae busnesau'n hyfyw ar 2f, byddai symud i 1m yn cynyddu capasiti yn sylweddol. Bydd y cynnydd gwirioneddol mewn gweithgarwch economaidd yn dibynnu ar alw defnyddwyr.

12. Nid yw effeithiau cymdeithasol, economaidd ac iechyd newid y canllawiau 2f wedi'u dosbarthu'n gyfartal. Mae pobl a gyflogir mewn sectorau caeedig yn fwy tebygol o fod yn ifanc, heb radd, ac o weithio mewn galwedigaethau â sgiliau isel (nodyn 4).

# Cymariaethau rhyngwladol

13. Mae gwledydd tebyg i'r DU yn argymell 1m (Ffrainc, yr Eidal, Singapôr), 1.5m (yr Almaen, yr Iseldiroedd, Awstralia) neu ystodau sy'n cychwyn ar 1m (De Corea, Taiwan). Maent yn aml yn mandadu mesurau lliniaru, yn fwyaf cyffredin gwisgo masgiau wyneb mewn lleoliadau cyhoeddus (yr Almaen, yr Eidal).

14. Gostyngodd Denmarc a Seland Newydd y canllawiau o 2f i 1m gyda chafeatau. Fe wnaeth Seland Newydd gynnal 2f ag 1m yn cael ei ganiatáu mewn amgylcheddau "rheoledig" yn unig lle roedd yn bosibl olrhain cysylltiadau. Yn Nenmarc, mae 2m yn dal i gael ei argymell mewn sefyllfaoedd risg uwch, gan gynnwys ysbytai a gyda phobl sy'n agored i niwed.

# Dadansoddiad sector

15. Mae dwy risg y mae angen eu rheoli wrth leihau canllawiau ynghylch pellter. Yn gyntaf, y risg bersonol i unigolion o ddal y feirws mewn lleoliad ac yn ail, cyfradd drosglwyddo ymlaen ar draws y gymuned. Gall lleihau risgiau i unigolion trwy hylendid da a mesurau eraill helpu i fynd i'r afael â'r ddwy risg. Gall casglu manylion staff a chwsmeriaid i hwyluso profi ac olrhain helpu i reoli trosglwyddo ymlaen.

16. Dylid defnyddio'r mesurau lliniaru dilynol ar draws pob lleoliad er mwyn lleihau risg:

    - cynnal 2f lle mae hynny'n hyfyw;
    - neges ddiamwys i staff aros adref pan ydynt yn symptomatig, neu os yw aelod o'u cartref yn symptomatig, ac i gael eu profi er mwyn caniatáu olrhain cysylltiadau ag achosion positif;
    - staff yn lleihau hyd y cyswllt i lai na 2f gyda phobl y tu allan i'w cartref;
    - cynnal hylendid dwylo a moesau peswch;
    - glanhau ardaloedd a rennir yn drylwyr ac yn rheolaidd, gan gynnwys toiledau;
    - gwisgo gorchuddion wyneb pan na ellir cadw pellteroedd o 2f mewn amgylcheddau dan do lle mae hynny'n bosibl;
    - cofnodi manylion cysylltiadau a phatrymau gwaith staff er mwyn cefnogi profi ac olrhain.

17. Mae'r tabl isod yn arddangos sut y gallai busnesau mewn gwahanol sectorau liniaru risg ar bellter o 1m. Mae hyn wedi'i seilio ar adeiladau a gweithgareddau nodweddiadol a bydd amrywio o fewn sectorau o ran pa mor effeithiol y gall lleoliadau wneud hyn. Er enghraifft, efallai y bydd rhai theatrau yn gallu lleihau risg ar bellter o 1m yn effeithiol ond na all eraill wneud hynny. Felly dylid defnyddio asesiadau risg Covid-ddiogel i asesu a lliniaru risg.

# Rhestr eglurhaol o sectorau wedi'u casglu yn ôl potensial tebygol i liniaru risg ar 1m (ond bydd yn dibynnu ar leoliadau unigol)

## Tebygol o allu lliniaru risg

- **Sector: Manwerthu.**
  Enghreifftiau o fesurau lliniaru (ddim yn gynhwysfawr): Terfynau capasiti; Pryniadau digyswllt; Darparu glanweithydd dwylo; Awyru cynyddol.
  Gwerth y sector / cyflogaeth (nodyn 5): £104bn; 3.1m o swyddi.
  Nodweddion y gweithlu: Gweithlu ifanc gyda chyflogau is na'r cyfartaledd.

- **Sector: Adeiladu.**
  Enghreifftiau o fesurau lliniaru (ddim yn gynhwysfawr): Gweithio mewn timau sefydlog; Seibiau gwasgarog; Awyru cynyddol; Profi ac olrhain effeithiol yn bosibl.
  Gwerth y sector / cyflogaeth (nodyn 5): £123bn; 2.3m o swyddi.
  Nodweddion y gweithlu: Gweithlu hŷn, yn cael eu talu uwchlaw'r cyfartaledd. Yn anghymesur Gwyn a gwrywaidd.

- **Sector: Gweithgynhyrchu.**
  Enghreifftiau o fesurau lliniaru (ddim yn gynhwysfawr): Gweithio mewn timau sefydlog; Seibiau gwasgarog; Rhoi'r gorau i weithio wyneb yn wyneb; Profi ac olrhain effeithiol yn bosibl.
  Gwerth y sector / cyflogaeth (nodyn 5): £191bn; 2.7m o swyddi.
  Nodweddion y gweithlu: Gweithlu hŷn, yn cael eu talu uwchlaw'r cyfartaledd. Yn anghymesur Gwyn a gwrywaidd.

## Potensial i liniaru ond amrywii eang rhwng lleoliadau

- **Sector: Gwestai.**
  Enghreifftiau o fesurau lliniaru (ddim yn gynhwysfawr): Digideiddio prosesau mewngofnodi; Rhoi pwrpas newydd i ofod nad yw'n hanfodol; Ailgynllunio gwasanaethau bwyd; Profi ac olrhain effeithiol yn bosibl.
  Gwerth y sector / cyflogaeth (nodyn 5): £12bn; 370,000 o swyddi.
  Nodweddion y gweithlu: Gweithlu ifanc gyda chyflogau is na'r cyfartaledd. BAME Uchel.

- **Sector: Bwytai / Tafarndai yn defnyddio gwasanaeth bwrdd neu yn yr awyr agored.**
  Enghreifftiau o fesurau lliniaru (ddim yn gynhwysfawr): Archebu ymlaen llaw trwy ap / ffurflen bapur; Cyflunio byrddau a seddi; Tynnu eitemau aml-ddefnydd (bwydlenni); Awyru cynyddol; Potensial ar gyfer profi ac olrhain.
  Gwerth y sector / cyflogaeth (nodyn 5): £40bn; 2.0m o swyddi (yr holl wasanaethau bwyd a diod).
  Nodweddion y gweithlu: Gweithlu ifanc gyda chyflogau is na'r cyfartaledd. BAME Uchel.

- **Sector: Sinemâu.**
  Enghreifftiau o fesurau lliniaru (ddim yn gynhwysfawr): System un ffordd, ymadael fesul rhes, ciwio â gofodau, awyru cynyddol; Archebu ymlaen llaw, talu ymlaen llaw yn unig; Profi ac olrhain effeithiol yn bosibl.
  Gwerth y sector / cyflogaeth (nodyn 5): £0.6bn; 18,000 o swyddi.
  Nodweddion y gweithlu: Dim data.

## Lleoliadau lle gallai fod angen gwneud rhagor o waith i liniaru risg

- **Sector: Theatrau.**
  Enghreifftiau o fesurau lliniaru (ddim yn gynhwysfawr): System un ffordd, ymadael rhes wrth res; Sgrîn rhwng y cast / y gynulleidfa; Profi ac olrhain effeithiol yn bosibl.
  Gwerth y sector / cyflogaeth (nodyn 5): £2.4bn; 73,000 o swyddi (pob un yn y celfyddydau perfformio).
  Nodweddion y gweithlu: Mae gweithwyr wedi'u clystyru o amgylch dinasoedd mawr.

- **Sector: Hosteli.**
  Enghreifftiau o fesurau lliniaru (ddim yn gynhwysfawr): Cyflunio gwelyau; Rhoi pwrpas newydd i ofod nad yw'n hanfodol; Ailgynllunio gwasanaethau bwyd; Glanhau cyfleusterau toiledau a rennir.
  Gwerth y sector / cyflogaeth (nodyn 5): Dim data.
  Nodweddion y gweithlu: Dim data.

- **Sector: Bariau a chlybiau eraill dan do.**
  Enghreifftiau o fesurau lliniaru (ddim yn gynhwysfawr): Terfynau capasiti; Tynnu eitemau aml-ddefnydd; Golchi dwylo wrth y fynedfa / bar; Potensial ar gyfer profi ac olrhain.
  Gwerth y sector / cyflogaeth (nodyn 5): Dim data.
  Nodweddion y gweithlu: Mae gan y sector lletygarwch weithlu ifanc gyda chyflogau is na'r cyfartaledd. BAME Uchel.

18. Mae cludiant cyhoeddus yn peri risg uchel oherwydd cyswllt hir dan do rhwng nifer uchel o ddefnyddwyr o wahanol aelwydydd, er y gall hyn gael ei liniaru'n rhannol gan ddefnyddio terfynau capasiti, gorchuddion wyneb, sgriniau a thrwy lanhau ac awyru. Rydym yn argymell y caniateir 1m o bellter â gorchuddion wyneb ar gludiant cyhoeddus; mae angen mwy o gapasiti ar gyfer twf economaidd, gweithgareddau cymdeithasol ac i hwyluso mwy o blant i ddychwelyd i'r ysgol. Mae manteision gwasanaeth cyhoeddus i newid y canllawiau cyfredol. F e wnaeth yr adolygiad ystyried gwasanaethau cyhoeddus lle gallai cynnydd mewn capasiti fod yn bosibl dros amser gyda mesurau lliniaru addas ar waith. Mae gwaith pellach i adrannau ei wneud yn y maes hwn.

# Gweithredu

19. Mae'r canllawiau cyfredol yn datgan "lle mae'n bosibl, dylech gynnal 2m rhwng pobl". Dylai'r canllawiau newid i nodi bod 2f neu 1m â mesurau lliniaru risg (lle nad yw 2m yn hyfyw) yn dderbyniol, ac y dylai busnesau ystyried a nodi'r mesurau lliniaru y byddant yn eu cyflwyno yn eu hasesiad risg. Mae ymgyrch gyfathrebu glir sy'n egluro sut i leihau lledaeniad y feirws, a chynyddu dealltwriaeth o'r canllawiau, gan gynnwys ar sut i leihau risg ar 1m a beth yw mesurau lliniaru risg, yn hanfodol i roi'r newid hwn ar waith yn effeithiol. Cyflwynir sail awgrymedig ar gyfer cyfathrebu â'r cyhoedd yn Atodiad A.

20. Eisoes mae angen i fusnesau gwblhau asesiad risg Covid-ddiogel er mwyn gweithredu. Gellir defnyddio'r system hon i weithredu unrhyw newid mewn canllawiau. Dylai'r llywodraeth, yr HSE ac arweinwyr sectorau barhau i weithio gyda'i gilydd i ddarparu cyngor clir ar ba fesurau a allai leihau risgiau, yn benodol ar 1m. Gall busnesau arloesi a chymhwyso cyngor i'w sefyllfaoedd unigol.

21. Dylai'r ymagwedd at bennu pa sectorau sy'n agored neu'n gaeedig a pha fesurau lliniaru sydd eu hangen ar 1m newid yn ôl ffactorau gan gynnwys mynychder Covid-19. Gallai hyn ddigwydd ar lefel leol, yn seiliedig ar gyngor JBC. Hefyd dylid ystyried tystiolaeth newydd am fesurau lliniaru effeithiol.

# Atodiad A: 'Sut mae Covid-19 yn cael ei drosglwyddo a sut i leihau risgiau'

Trosglwyddir Covid-19 mewn tair ffordd:

1. **Cyswllt uniongyrchol person-i-berson** - os yw person heintus yn anadlu defnynnau arnoch chi neu os ydych chi'n eu codi trwy gyswllt corfforol â pherson heintus.

2. **Cyswllt ag arwyneb halogedig** - os ydych chi'n cyffwrdd ag arwyneb sydd wedi'i halogi â'r feirws ac yna'n cyffwrdd â'ch trwyn, eich llygaid neu'ch ceg, efallai y byddwch chi'n cael eich heintio.

3. **Trosglwyddo trwy erosol** - mae defnynnau mân o hylif sy'n cynnwys feirws yn cael eu hanadlu allan, yn ffurfio erosol ac yn cael eu cludo trwy'r awyr. Efallai y cewch eich heintio os byddwch chi'n anadlu'r rhain i mewn.

Os ydych ymhellach i ffwrdd oddi wrth rywun, mae llai o risg o ddal y feirws oddi wrth ddefnynnau neu drosglwyddo trwy erosol. Fodd bynnag, nid pellter yw'r unig beth sy'n bwysig.

- Hyd - po hwyaf yw'r amser y byddwch yn agos at berson heintus, yr uchaf yw'r risg.
- Aer ffres - mae'r risg yn is os ydych chi yn yr awyr agored, neu mewn ardal sydd wedi'i hawyru'n dda,
- Cyfeiriad - mae'r risg yn is os nad ydych chi'n wynebu'r unigolyn heintus

Mae'r risg o drosglwyddo yn fach ar 2f a lle mae'n bosibl, **dylech gynnal pellter o 2f**.

Os nad yw'n bosibl cadw pellter o 2f, gallwch chi leihau'r risg i chi'ch hun ac i eraill ar 1m **trwy gymryd rhagofalon addas**:

- Cyfyngu ar nifer y bobl neu'r aelwydydd rydych chi'n dod i gysylltiad â nhw, e.e. osgoi teithio brig
- Eistedd / sefyll ochr yn ochr neu y tu ôl i bobl eraill, yn hytrach na'u hwynebu
- Cwrdd â phobl yn yr awyr agored, yn hytrach na dan do
- Cadw rhyngweithiadau'n fyr
- Gwisgo gorchudd wyneb ar gludiant cyhoeddus, mewn siopau neu amgylcheddau dan do sy'n orlawn
- Cynyddu awyru
- Osgoi siarad yn uchel neu ganu gydag eraill

**Er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo trwy gyswllt wyneb**, dylech chi:

- Olchi eich dwylo yn rheolaidd gan ddefnyddio sebon a d?r neu defnyddio lanweithydd dwylo
- Osgoi cyffwrdd ag arwynebau a pheidio â chyffwrdd â'ch wyneb
- Cael gwared ar wastraff yn ddiogel, gan gynnwys eitemau fel masgiau wyneb papur neu fenig

**Ymhob achos, rhaid i chi beidio â mynd i'r gwaith na mynychu lleoedd cyhoeddus eraill os ydych chi'n symptomatig, neu os yw aelod o'ch cartref yn symptomatig.**

# Nodiadau


1. CThEM, ystadegau Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws

2. Trosglwyddo SARS-CoV-2 a Mesurau Lliniaru, EMG-SAGE 4ydd Mehefin 2020 **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/892043/S0484_Transmission_of_SARS-CoV-2_and_Mitigating_Measures.pdf**

3. CThEM, ystadegau Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws

4. Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, Ebrill 2020

5. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, agregau lefel isel GDP (Cynnyrch Domestig Gros); Arolwg Busnes Blynyddol; Cofrestr Busnes ac Arolwg Cyflogaeth; Cyfres Swyddi'r Gweithlu. Blwyddlyfr Ystadegol BfI.

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2020**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu'n unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3**.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael ar ein gwefan yn **http://www.gov.uk/government/publications**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn **publiccorrespondence@cabinetoffice.gov.uk**